
Y CYLCHGRAWN CERDDORIAETH CRYNO AR GYFER PLANT BLYNYDDOEDD 5–8 • RHIFYN 11 • MEHEFIN 2022

# Y SELAR BACH

## Papur Wal




Croeso i rifyn diweddaraf **Y Selar Bach**!

Anodd credu ei bod hi'n dymor yr haf, a fod blwyddyn ysgol arall bron a gorffen.

Mae'r adeg yma o'r flwyddyn yn un cyffrous ar gyfer cerddoriaeth hefyd, gan fod llwyth o wyliau amrywiol yn digwydd dros y wlad i gyd.

Mae hyd yn oed yn fwy cyffrous eleni gan ein bod ni wedi bod heb y gwyliau yma ers tair blynedd oherwydd y pandemig. Felly mae croeso mawr yn ôl i ddigwyddiadau fel Tafwyl, Sesiwn Fawr Dolgellau, Gŵyl Canol Dre ac wrth gwrs yr Eisteddfod Genedlaethol.

Nid dim ond y cynulleidfa-oedd fydd yn falch gweld y digwyddiadau yma'n dechrau eto eleni, ond bydd y bandiau ac artistiaid hefyd yn falch iawn o'r cyfle i berfformio o flaen torfeydd mawr unwaith eto.

Un o'r bandiau yna sy'n siŵr o fod yn brysur ydy ein 'Band y Rhifyn' yn **Y Selar Bach** yma, **Papur Wal**, sef enillydd tri o **Wobrau'r Selar** yn gynharach yn y flwyddyn.

Gallwch ddarllen mwy amdanyn nhw, a llwyth o artistiaid eraill, yn y rhifyn yma o'r **Selar Bach**.

# Papur Wal

## FFEIL O FFEITHIAU

**AELODAU:** Ianto Gruffudd (gitâr a phrif ganwr), Guto Rhys Huws (dryms) a Gwion Ifor (gitâr fas)
**O BLE:** Y Felinheli, ger Caernarfon ac Ynys Môn
**FFURFIWYD:** Tua Medi 2018
**RECORDIAU:** 'Amser Mynd Adra' (albwm cyntaf a ryddhawyd yn 2021), 'Mae'r Dyddiau Gwell i Ddod' (EP a ryddhawyd ym Mawrth 2019), 'O'n ni'n Ffrindia' a 'When He's Gone' (Sengl Ddwbl – Awst 2019)

**RHESTR CHWARAE FIDEOS PAPUR WAL:**

- ***Nôl ac yn ôl***
- ***Llyn Llawenydd***
- ***Yn y Weriniaeth Siec***
- ***Arthur***
- ***Meddwl am Hi***




**UCHAFBWYNTIAU:**

- Ennill tair gwobr Selar yn Chwefror 2021 am y Band Gorau, Record Hir Orau a Chân Orau am 'Llyn Llawenydd'
- Taith fach o Brydain yn 2019 gan berfformio yn Glasgow, Manceinion a Llundain gyda'r bandiau Adwaith a Mellt
- Perfformio yng Ngŵyl Sŵn 2019
- Rhyddhau eu halbwm cyntaf, 'Amser Mynd Adra', yn 2021

- Mae Papur Wal yn gyfarwydd iawn am eu fideos caneuon doniol a gwych, ac wedi cyd-weithio tipyn gyda'r cyfarwyddwr Billy Bagilhole ar rai o'r rhain.
- ...er hynny, mae fideo eu cân enwocaf, Llyn Llawenydd, wedi'i greu gan Jacob Hodges, sef drymiwr y band o Aberystwyth, Mellt!

**FFEITHIAU DIDDOROL:**

- Er bod y tri aelod yn dod o'r gogledd, ffurfiodd Papur Wal yng Nghaerdydd pan oedd y tri'n byw yn y ddinas
- Mae'r grwp yn adnabyddus am gyfansoddi caneuon am gymeriadau go iawn. Efallai mai'r gân amlycaf ganddyn nhw i wneud hyn ydy 'Yn y Weriniaeth Tsiec' sy'n sôn am y sgïwr Jan Hudec oedd yn dod o'r Weriniaeth Siec yn wreiddiol, ond a enillodd fedal efydd Gemau Olympaidd y Gaeaf yng nghystadleuaeth y 'super-G' yn 2014 – y fedal gyntaf mewn sgïo i Ganada ers 20 blynedd!




- Tad Gwion sy'n chwarae bas ydy'r prifardd Ifor ap Glyn sydd wedi ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith ym 1999 a 2013.
- Roedd Ifor ap Glyn yn aelod o'r band o'r 1980au, Treiglad Pherffaith, ac roedd tad Guto (dryms), sef Dylan Huws, hefyd yn aelod o fand Y Ficar yn y 1980au.
- Roedd Ianto yn aelod gwreiddiol o'r grŵp o Ynys Môn, Fleur de Lys.

**GEIRFA**

**taith** – tour (sef cyfres o gigs mewn llefydd gwahanol)
**albwm** – album (casgliad o ganeuon, fel arfer rhwng tua 9 a 12, sy'n cael eu rhyddhau ar CD, record feinyl neu gasgliad digidol)
**cyfarwyddwr** – director (y person sy'n creu ffilm neu fideo)
**drill** – math o gerddoriaeth rap neu hip-hop
**Cernyweg** – Cornish (iaith Geltaidd sy'n dal i gael ei siarad gan rai pobl yng Nghernyw yn Lloegr)

# 5 UCHAF Y SELAR

**Dyma'r pump band sydd wedi dal sylw Y Selar yn ddiweddar**



**1. SŴNAMI** Mae un o grwpiau mwyaf poblogaidd Cymru yn ôl gyda'r sengl newydd, ***Pardis Disparu***.



**2. LISA PEDRICK** Mae'r gantores o Waun-Cae-Gurwen wedi ***cyfansoddi ei chân ddiweddaraf*** gyda'i thad, Wayne.



**3. SAGE TODZ** Artist 'drill' o'r Gogledd sydd wedi dal y sylw yn ddiweddar, a ***rhyddhau cân rap O Hyd*** i gefnogi tîm pêl-droed dynion Cymru.



**4. LLOYD LEWIS A DOM JAMES** Y ddeuawd hip-hop wedi rhyddhau sengl a fideo gwych ***Pwy Sy'n Galw?***



**5. GWENNO** Bydd albwm newydd y gantores, **Tresor**, sy'n bennaf yn yr iaith Gernyweg, ***allan ym mis Gorffennaf***.

## Dathlu pen-blwydd label I Ka Ching

Rydyn ni'n clywed lot am fandiau a cherddorion sy'n 'rhyddhau' cerddoriaeth ac mae'r **Selar Bach** yn aml yn rhoi sylw iddyn nhw. Ond pobl eraill sy'n bwysig iawn pan mae'n dod at wneud yn siŵr bod cerddoriaeth newydd yn cyrraedd eich clustiau ydy labeli recordiau.

Mae rhai bandiau a cherddorion yn mynd ati i recordio a rhyddhau cerddoriaeth ar-lein, neu ar CD neu record feinyl, ar ei pen eu hunain. Ond, mae'r rhan fwyaf yn gwneud hynny trwy label recordiau sy'n deall mwy am sut i wneud hynny.



Mae lot o labeli recordiau bach yng Nghymru sy'n rhyddhau ac yn helpu bandiau a cherddorion gwahanol. Mae un o'r rhain wedi bod yn dathlu pen-blwydd yn 10 oed eleni, sef **Recordiau I Ka Ching**.

2021 oedd dyddiad pen-blwydd y label yn 10 oed mewn gwirionedd, ond oherwydd Covid doedd dim modd dathlu'n iawn. Felly, penderfynodd **I Ka Ching** i fynd ati i ryddhau sengl newydd bob wythnos, gan artist gwahanol o'r label bob tro, ers 28 Ionawr.

Rhai o'r artistiaid sydd wedi rhyddhau senglau gyda nhw fel rhan o'r dathliad ydy Candelas, Gwenno Morgan, Glain Rhys, Blodau Papur, Yr Eira, Griff Lynch a Mared Williams.

Y sengl olaf i'w rhyddhau oedd 'Os Oes Cymaint o Drwbwl...' gan Y Cledrau ym mis Mai, ac ar ôl hynny fe wnaeth y label ryddhau pob un o'r caneuon ar record feinyl sgleiniog.

Pen-blwydd hapus iawn i Recordiau I KA CHING gan y Selar, a phob lwc dros y 10 blynedd nesaf.


## 5 CÂN I WRANDO ARNYN NHW





***cynbohir*** – Gwilym




***Lawr ar Fy Nghwch*** – Elis Derby



***Heuldy*** – FRMAND a Mali Hâf




***Un Cenedl*** – Mr Phormula




***Atgofion*** – Tapestri

*Ym mhob rhifyn o'r **Selar Bach** rydyn ni'n holi disgyblion o ysgolion gwahanol am y gerddoriaeth Gymraeg maen nhw'n ei mwynhau.*

# SELAR YN GIGIO YN... YSGOL GYMRAEG BRYNIAGO



**Enw:** Poppy
**Hoff fand Cymraeg:** Candelas
**Hoff gân Gymraeg:** 'Rhedeg i Paris' gan Candelas
**Ble fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth?** Yn fy ystafell wely neu wrth i mi gerdded fy nghi.
**Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di?** Elin Flur, Eden a Bronwen Lewis.



**Enw:** Max
**Hoff fand Cymraeg:** Welsh Whisperer
**Hoff gân Gymraeg:** 'Yma o hyd' gan Dafydd Iwan
**Ble fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth?** Yn fy ystafell ddosbarth.
**Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di?** Candelas, Super Furry animals a Sŵnami



**Enw:** Gwion
**Hoff fand Cymraeg:** Super Furry animals
**Hoff gân Gymraeg:** 'Dydd Gwener' gan Bronwen Lewis
**Ble fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth?** Wrth deithio yn y car.
**Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di?** Bronwen Lewis, Candelas a Super Furry Animals



**Enw:** Mared
**Hoff fand Cymraeg:** Yws Gwynedd
**Hoff gân Gymraeg:** 'Sgrîn' gan Yws Gwynedd
**Ble fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth?** Yn y car.
**Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di?** Caryl Parry Jones, Elin Fflur a Bronwen Lewis



**Enw:** Efa
**Hoff fand Cymraeg:** Eden
**Hoff gân Gymraeg:** 'Dwylo dros y mor'
**Ble fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth?** Wrth deithio yn y car i gael gwersi nofio
**Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di?** Yws Gwynedd, Elin Fflur a Bronwen Lewis



**Enw:** Zac
**Hoff fand Cymraeg:** Sŵnami
**Hoff gân Gymraeg:** 'Hei Mr Urdd' gan Mei Gwynedd
**Ble fyddi di'n gwrando ar dy gerddoriaeth?** Yn fy ystafell wely
**Pa 3 band neu artist fyddai yn dy gig perffaith di?** Bronwen Lewis, Sŵnami a Super Furry animals

Os hoffai eich dosbarth chi ateb cwestiynau **Selar yn gigio...** anfonwch neges:
post@selar.cymru

**Rhagor am gerddoriaeth Gymraeg**

*Gwefan Y Selar*

*Blog Sôn am Sîn*

*Sianel YouTube Lŵp*

*Rhaglenni Radio Cymru*